

# Yr Wyddfa Heddiw



# YR WYDDFA DDAETH I'R BRIG MEWN AROLWG I GANFOD YR OLYGFA ORAU YM MHRYDAIN YN 2017

AROLWG CENEDLAETHOL SAMSUNG 2017

# Yr Wyddfa heddiw

Mae'r adran hon yn cynnwys ffeithluniau sy'n dangos sefyllfa'r Wyddfa ar hyn o bryd. Mae'n nodi: :

- sut y caiff Yr Wyddfa ei defnyddio
- yr heriau a wynebir wrth ofalu am y mynydd
- ecoleg yr Wyddfa
- pobl leol a'r gymuned leol
- cyflawniadau'r partneriaid hyd yn hyn



Dringo'r Wyddfa, 1883 - lluniaeth ar y daith




# Y defnydd a wneir o'r Wyddfa


## Prif atyniadau ymwelwyr yng Nghymru



Canolfan y Mileniwm, Caerdydd
**1.1 miliwn**



LC, Abertawe
**803,000**



Yr Wyddfa
**582,000**



Sain Ffagan
**531,000**


Yr Wyddfa yw mynydd prysuraf y DU


Parc Cenedlaethol Eryri sy'n denu'r gyfran fwyaf o ymwelwyr gweithgareddau corfforol o holl Barciau Cenedlaethol gwledydd Prydain ac mae'r Wyddfa yn benodol yn cynnal ystod eang o weithgareddau awyr agored



## Defnydd tir

**26** Nifer y ffermydd ar Yr Wyddfa





## Digwyddiadau a drefnir

Daeth Marathon Eryri i'r brig DDWYWAITH
mewn pleidlais ar gyfer marathon orau gwledydd Prydain

Her y 3 Chopa





**30,000**
yn cymryd rhan bob blwyddyn

Ras Ryngwladol yr Wyddfa
**650**
o bobl yn cymryd rhan bob blwyddyn

# Cylchred Blynyddol


**Niferoedd ymwelwyr**




| | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amser gorau'r flwyddyn ar gyfer y gweithgaredd** | Mynydda gaeafol<br>Dringo rhew | | | Paragleidio | | | | | Cerdded | | Mynydda gaeafol | |
| **Bywyd gwyllt ac amseroedd blodeuo** | | | Tormaen Porffor | | | Lili'r Wyddfa | | | | | | |
| **Y flwyddyn ffermio yn yr ucheldir** | | Sganio: Mamogiaid yn cael eu sganio i wirio faint o ŵyn maen nhw'n eu cario. Mwy nag un oen = mwy o fwyd i'r famog | | Tymor lloua'r gwanwyn | Tymor Wyna Mamogiaid ac ŵyn yn dych-welyd i'r bryniau<br>Gwartheg yn pori ar y mynydd | Hyfford-diant cynefin: Mae'r defaid yn cofio eu hardal o'r mynydd ac yn tros-glwyddo'r wyboda-eth hon i'r ŵyn | Amser cneifio! Mae côt wlân yn rhy gynnes yn yr haf! | | Yr helfa: Mae defaid yn cael eu hel i lawr o'r mynydd a'u trochi (eu golchi mewn hylif i gael gwared ar drychod a phlâu eraill)<br>Mynd â'r gwartheg i dir is<br>Tymor lloua'r hydref | | Hwrdda [tymor paru] | |

Ion Chwe Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag


O ble y daw'r rhan fwyaf o ymwelwyr?




Prif ffynonellau gwybodaeth cyn ymweld




Gwefan a chyfryngau cymdeithasol Parc Cenedlaethol Eryri



dros 4,000,000 trawiad



dros 70,000 o ddilynwyr


## Beth yw'r effaith?

### Rhwng 2013 a 2015 dyblodd y ganran o gerddwyr a gafodd eu profiad cyntaf o gerdded mynydd ar Yr Wyddfa.

Mae poblogrwydd cerdded Yr Wyddfa yn parhau i gynyddu, ymhlith cerddwyr mynydd profiadol, cymunedau o ddringwyr ac ymhlith y rhai nad ydynt erioed wedi cerdded mynyddoedd o'r blaen. Mae'r defnydd hwn yn cael effaith gynyddol ar y mynydd, a hynny er gwell ac er gwaeth.

| Effeithiau cadarnhaol | Effeithiau negyddol |
|---|---|
| Cynnydd mewn buddion economaidd. Amcangyfrifir bod ymwelwyr â'r Wyddfa yn gwario £69 miliwn yn uniongyrchol yng nghymunedau'r ardal bob blwyddyn. | Mae cynnydd yn niferoedd ymwelwyr yn cynyddu'r galw ar dimau achub mynydd ac yn rhoi pwysau ar wirfoddolwyr ac adnoddau'r sefydliadau hollbwysig hyn. |
| Mae pobl yn cael profiadau da ar Yr Wyddfa, ac mae traean o'r ymwelwyr yn rhai sydd wedi ymweld o'r blaen, gan gynyddu'r buddion economaidd i'r ardal. | Pobl ddim yn ymwybodol, nac yn dilyn y cod cefn gwlad. Er enghraifft, cŵn heb fod dan reolaeth yn rhedeg ar ôl defaid. gweithgaredd |
| Mae rhanbarth ehangach gogledd Cymru yn elwa ar brofiadau da yr ymwelwyr sy'n mwynhau'r Wyddfa. Roedd gogledd Cymru'r yn y 4ydd safle yn y rhestr o leoedd yn y byd y dylid ymweld â hwy yn y Lonely Planet Guide 2017. | Pwysau ar seilwaith, adnoddau a'r amgylchedd. Er enghraifft, mwy o bobl yn dod yn rhoi pwysau ychwanegol ar gynefinoedd, llwybrau troed, meysydd parcio a thoiledau. |
| Mae mynyddoedd Eryri yn ased hamddena aruthrol i bobl gogledd Cymru, ac mae 16% o'r ymwelwyr â'r Wyddfa yn byw yno. | Pwysau ar amser ac adnoddau wardeiniaid a gwirfoddolwyr i glirio ysbwriel yn dilyn mwy o ymwelwyr yn dod o bob cwr. |

Cerddwyr mynydd am y tro cyntaf




**DYBLODD %**
y cerddwyr mynydd
**AMRHOFIADOL**
mewn dwy flynedd


## Profiadau ymwelwyr



Rhoddodd
# 83%
o ymwelwyr y sgôr uchaf o 4 i'r Wyddfa - 'profiad ffantastig'

## Pwysau ar feysydd parcio

Amcangyfrif o % y diwrnodau mae'r meysydd parcio dros eu cynhwysedd yn ystod y tymor brig*





* mae'r data caled ar or-gynhwysedd meysydd parcio yn gyfyngedig, ond byddwn yn gwneud ymchwil a dadansoddi pellach fel rhan o'r Cynllun hwn.

## Ymddygiad ymwelwyr




Mae Rheilffordd Yr Wyddfa wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ymddygiad treisgar ac ymosodol tuag at staff yn Hafod Eryri yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.


## Ymwelwyr â'r Wyddfa





# 582,000
o ymwelwyr â chopa'r Wyddfa 2016




## Cerddwyr Yr Wyddfa 2016




## Cyrraedd Yr Wyddfa




- Porthladd fferi Caergybi - Dulyn
- Gorsafoedd Rheilffordd Agosaf – Bangor, Betws-y-Coed, Blaenau Ffestiniog, Cyffordd Llandudno, Porthmadog
- Meysydd Awyr Rhyngwladol Agosaf – Maes Awyr John Lennon, Lerpwl, Maes Awyr Canolbarth Lloegr a Maes Awyr Manceinion


## Crwydro Ardal Yr Wyddfa

Mae Sherpa'r Wyddfa, yn teithio o gwmpas godre'r Wyddfa gan gysylltu pob un o'r chwe phrif lwybr troed â'r pentrefi cyfagos. Ar ochr ogleddol y mynydd mae'r amserlen yn gynhwysfawr ac mae'r bysiau'n rhedeg mor rheolaidd â phob hanner awr yn yr haf. Mae'r gwasanaeth yn hynod boblogaidd ymhlith cerddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth parcio a theithio yn Nant Peris (ar gyfer Pen-y-Pass). Mae'r gwasanaeth yn Nant Gwynant ac ar ochr Rhyd Ddu yn llawer mwy anaml a dim ond ychydig o fysiau sydd ar gael bob dydd. Mae'r Parc Cenedlaethol, Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy i gyd yn cyfrannu yn ariannol tuag at y gwasanaeth bws. Mae hyn yn cynnwys refeniw o'r meysydd parcio o amgylch Yr Wyddfa.



# Heriau gofalu am y mynydd

## Effeithiau ar y mynydd



500 o ddefaid yn cael eu **lladd** y flwydd drwy ymosodiadau gan gŵn yng Ngogledd Cymru


Difrod i eiddo



Ysbwriel




1 sgip yn cael ei lenwi bob dydd yn yr haf ym Pen-yPass



Y prif fathau o sbwriel a gasglir ar y mynydd gan wardeniaid a gwirfoddolwyr

## Ymwelwyr â Phen-y-pass




236,000 o ymwelwyr

Safle Pen-y-Pass yw un o'r prysuraf yn y Parc Cenedlaethol


## Gwariant blynyddol y Parc Cenedlaethol a'r Ymddiredolaeth Genedlaethol ar gynnal llwybrau

£300,000

yn cael ei ariannu'n rhannol gan refeniw parcio ceir ym Mhen-y-Pass



8 o weithwyr llwybrau



## Cyfleusterau i Ymwelwyr



29%

o'r ymwelwyr yn asesu'r adnoddau a'r meysydd parcio yn 'ddim yn wych'





Defnyddir

9000 litr

o ddŵr bob dydd ar y copa.

Mae hynny'n cyfateb i

14



mini yn llawn dŵr.

Mae dŵr yn cael ei gynaeafu oddi ar do yr adeilad a'i gludo i fyny ar y trên.



# Cŵn yn ymosod ar ddefaid

Mae Fiona Davies a'i gŵr yn rhedeg fferm fynydd, Hafod Lydan, wrth droed Yr Wyddfa. Maen nhw wedi magu sawl brîd o ddefaid yn ystod y 30 mlynedd diwethaf ac, yn ogystal â rhedeg y fferm, maen nhw'n rhedeg maes gwersylla a bythynnod hunanddarpar.  Mae eu defaid wedi dioddef ymosodiadau gan gŵn ac mae cŵn yn rhedeg ar ôl defaid yn bryder enfawr i ffermwyr o amgylch Yr Wyddfa. Bu Fiona'n siarad â'r National Sheep Association am ei phrofiadau:

*"Mae milltiroedd o lwybrau troed i gopa'r Wyddfa yn rhedeg ar hyd ein tir isaf ond mae'r tir uchaf yn dir mynediad agored. Rydyn ni wedi gweld, nifer o weithiau, a heb allu gwneud dim yn ei gylch, cŵn yn rhedeg ar ôl defaid. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn fwy fyth yn ystod y misoedd diwethaf, rydyn ni yn ein gwaith yn ymgeleddu defaid wedi'u niweidio neu'n marw ar ôl i gi eu cnoi.*

*Mewn un digwyddiad, roedd yn rhaid i berchennog y ci ei gicio a thynnu'r ci oddi ar y ddafad cyn cerdded oddi yno a gadael y ddafad yn hanner marw. Roedd y ddafad yn dal yn fyw pan welais i hi ond roedd ei phen wedi'i wasgu'n ddarnau a'r gwaed yn rhedeg o'i llygaid a'i thrwyn. Roedd yn rhaid i ni ei difa.*


*Mae'n anodd rhoi cost ar gŵn yn rhedeg ar ôl defaid. Oes, mae yna gostau milfeddyg, ond mae ein hamser ni'n costio hefyd. Mae gofalu am ddafad am awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, yn golygu colli hanner diwrnod o waith yn rhywle arall. Gallai defaid sy'n erthylu fod yn cario un neu ddau oen. Mae prisiau ŵyn masnachol yn amrywio ond maen nhw'n gallu bod yn werth tua £60-£80 yn barod ar gyfer y cigydd, felly gallai pob dafad sy'n erthylu olygu colled o £160. Mae'r costau'n llawer mwy gyda defaid llawr gwlad a hyd yn oed yn fwy byth wedyn gyda defaid pedigrî.*

*Rydyn ni'n caru cŵn, allen ni ddim bugeilio heb ein cŵn ni'n hunain. Os na allwch chi atal ci rhag rhedeg ar ôl defaid, ewch â'r ci at rywun sy'n gallu ei hyfforddi. Ac os byddwch chi'n mynd â'ch ci am dro yng nghefn gwlad, cofiwch ei gadw o dan reolaeth."*

Ci wedi ei ddal yn ymosod ar ddafad - ardal Yr Wyddfa


## Cymharu nifer y damweiniau

Damweiniau fesul pob miliwn o oriau a dreulir ar y gweithgaredd





## Digwyddiadau achub mynydd

Digwyddiadau ar gyfer bob 10,000 o ymwelwyr





Digwyddiadau achub mynydd o'i gymharu â niferoedd ymwelwyr ar fynyddoedd mwyaf poblogaidd Prydain yn 2013

## Digwyddiadau achub ar y mynydd




## Negeseuon diogelwch allweddol gan bartneriaeth Mynydda Diogel



# Ecoleg Yr Wyddfa

## Gwarchodaeth ecolegol




40km²

Ardal Cadwraeth Arbennig
a Safle o Ddiddordeb
Gwyddonol Arbennig

16.7km²

Gwarchodfa
Natur
Genedlaethol









### Mae gan y Rhwydwaith Newid Amgylcheddol (RhNA) safleoedd ar draws y DU.

Maent yn cynnal gwaith monitro, data ac ymchwil i ddeall newid amgylcheddol.

Mae'r safle Rhwydwaith Newid Amgylcheddol Yr Wyddfa yng Nghwm Dyli yn monitro ystod eang o setiau data, gan gynnwys llystyfiant, infertebratau, niferoedd geifr a defaid, y tywydd, a hyd yn oed gorchudd eira.

## Nifer y defaid

### Lleihad yn nifer y defaid yng Nghwm Dyli




## Rhywogaethau pwysig ar Yr Wyddfa


Mae GNG Yr Wyddfa yn cynnal dros

15

o rywogaethau a chynefinoedd wedi'u gwarchod



Coetir Iwerydd - Hefyd wedi ei ddosbarthu yn fforest law dymherus. Ar raddfa fyd-eang mae'n gynefin mwy cyfyngedig na fforestydd glaw trofannol



Y Gwladwr Cymreig
Un o'r ychydig fannau yng ngwledydd Prydain lle gallwch chi weld y rhywogaeth hon



Yr unig le yng ngwledydd Prydain lle gallwch chi ganfod Chwilen yr Enfys



Rhostir - Cynefinoedd rhostir ych a gwlyb sy'n genedlaethol a rhyngwladol bwysig



Lili'r Wyddfa – yr unig le yng ngwledydd Prydain lle mae hon yn tyfu yw Eryri




Mae'r planhigion arctig-alpaidd yn un o nodweddion pwysicaf Gwarchodfa Natur Genedlaethol Yr Wyddfa

## Rhywogaethau ymledol ar Yr Wyddfa

Cynnydd yn nifer y geifr yng Nghwm Dyli




Minc



Rhododendron ponticum


dros
£600,000
I reoli rhododendron yn Nant Gwynant





1500

o gaeau pêl-droed - dyna faint o arwynebedd o Rododendron ponticum sydd wedi'i glirio yn Nant Gwynant



Rhedyn

# Arbenigedd Yr Wyddfa



Haenell Lili'r Wyddfa © Casgliad Prifysgol Bangor

Mae creigiau'r Wyddfa yn cynrychioli gorffennol amrywiol a ffyrnig. Mae'r creigiau hyn yn darparu lloches unigryw ac allbost ar gyfer planhigion arbennig o'r ardaloedd arctig ac alpaidd. Mae daearegwyr a botanegwyr fel ei gilydd, wedi treulio amser maith ar y clogwyni yn chwilota a chrafu eu pennau, gan geisio olrhain hanes y mynydd.

Erbyn y 17eg ganrif roedd Yr Wyddfa eisoes yn denu botanegwyr o bedwar ban byd.

Caiff Edward Llwyd ei gofio oherwydd iddo ddarganfod Lili'r Wyddfa. Roedd ei wybodaeth am fflora Cymru yn ddiguro, ond roedd hefyd yn arbenigwr ar y Llydaweg, y Gernyweg a'r Gymraeg ac ef ysgrifennodd y disgrifiad gwyddonol cyntaf o ddeinosor!

O'r 18fed ganrif ymlaen, mae casglwyr a thywyswyr wedi defnyddio a chamddefnyddio adnoddau naturiol y mynydd, ac yn rhoi eu bywydau mewn perygl i fynd ar drywydd planhigion prin a'r buddion y gallent eu darparu - arian, bri, neu wybodaeth. Gan mai gyda rhaff yn unig yr oedd modd mynd i lawer o'r safleoedd, roedd botanegwyr ymhlith y dringwyr mynydd cyntaf ar Yr Wyddfa.

Erbyn cyhoeddi llyfr 'Flora' J.E. Griffiths yn 1894, roedd dosbarthiad planhigion mynydd prin Eryri yn dra hysbys.

Yn yr 20fed ganrif, rhoddodd Evan Roberts y wybodaeth ar waith. Chwarelwr o Gapel Curig gydag angerdd am blanhigion mynydd oedd ef. Ond fel Warden y Warchodfa Natur yn ddiweddarach roedd yn ddylanwadol wrth i gadwraeth sefydlu ei hun fel agwedd bwysig ar ddefnydd tir.

A heddiw?

Mae arbenigwyr heddiw yn cynnwys Barbara Jones, a'i gwaith ecolegol hi ar Lili'r Wyddfa sy'n llunio'r ffordd y mae'r Warchodfa Natur Genedlaethol yn cael ei rheoli, a Wendy McCarthy sy'n cynnal y Gofrestr Planhigion Prin ar ran Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain. Mae gwaith gan Gymdeithas Edward Llwyd a Llên Natur yn parhau i ehangu ein dealltwriaeth o blanhigion yn y dirwedd wyddonol, ddiwylliannol, a hanesyddol.

# Pobol a'r economi

**59%**
yn siarad
Cymraeg yn Eryri

Cymraeg
Cymraeg

Un o ieithoedd
byw hynaf
Ewrop


**Fffermio**

**£417 milliwn**
GVA y sector amaeth
yng Nghymru

**Twristiaeth**

**£2,844 miliwn**
GVA y sector twristiaeth
yng Nghymru

Y ganran sy’n cael eu cyflogi yn y diwydiannau llety, bwyd a gwasanaeth



## Swyddi ac Incwm yn ôl Diwyddiannau yn Eryri

Addysg
12%

Gweithgynhyrchu
5.7%

Amaeth, coedwigaeth a physgota 7.2%

Masnach cyfanwerthu a manwerthu
12.7%

Adeiladu
9.9%

Gweithgareddau gwasanaeth llety a bwyd
11.6%

Gweithgareddau iechyd a gwaith cymdeithasol
12.8%

## % o ail gartrefi yn Ardal Yr Wyddfa

Llanberis 5%
Beddgelert a Nant Gwynant 24%
Betws Garmon a Rhyd Ddu 20%
Waunfawr 6%

## Cyfoeth Yr Wyddfa

Beth sy'n cael eu cynhyrchu ar y mynydd? Cig oen Cymru; cig eidion; anifeiliaid stôr; anifeiliaid bridio; dŵr; golygfeydd; llonyddwch

## Incwm ffermio defaid mynydd

Elw cyfartalog blynyddol o £18,876 (ar ôl cymhorthdal)


Taliad cymhorthdal sylfaenol £23,483

## Incwm Canolrifol Cartrefi yn 2015


Eryri £22,660

Y DU £25,700

% Staff Llawn Amser




% Hunan-gyflogedig




Nifer y pobl a gyflogir yn y sector cadwraeth a gwaith rheoli cefn gwlad yn Ardal Yr Wyddfa

Llawn amser 12
Dros hanner eu hamser 19
Rhan o'u hamser 20



# Ffermio mynydd ar Yr Wyddfa – ffordd o fyw

Mae llai na thri y cant o bobl mewn economïau modern yn ffermwyr heddiw. Ond, yn ôl amcangyfrifon y Cenhedloedd Unedig, mae mwy na dwy biliwn o bobl yn ffermwyr, y rhan fwyaf yn ffermwyr bychain, hynny yw, tua thraean y bobl ar y blaned. Mae’r dulliau ffermio ar ffermydd mynydd yn gallu ymestyn yn ôl cymaint â 4,500 o flynyddoedd. Mae Helen a Bedwyr yn ffermio llethrau'r Wyddfa yn nyffryn Nant Gwynant ac yn byw yno gyda'u pedwar o blant Aron, 17, Eban, 16, Erin, 12 a Siôn, 10:


*“Mae ffermio ar y mynydd yn anodd, ond rydyn ni'n mwynhau bod yn ffermwyr mynydd, rydyn ni'n mwynhau'r mynyddoedd ac yn mwynhau ffermio. Cafodd Bedwyr a minnau ein magu ar ffermydd mynydd ac mae ein teuluoedd yn ffermwyr mynydd. Mae o yn ein gwaed. Efallai na fyddai llawer yn hoffi gwneud yr hyn rydyn ni’n ei wneud nac yn mwynhau byw mewn lle mor brydferth ond anghysgbell ac unig, weithiau.*

*Mae anifeiliaid wedi cael eu cadw ar y mynyddoedd hyn am ganrifoedd ac wedi chwarae rhan fawr mewn dylanwadu ar sut maen nhw'n edrych heddiw. Mae'n lle anodd i fyw y dyddiau hyn gan fod yn rhaid i ni geisio gwneud rhyw fath o fywoliaeth neu beth fyddai'r pwynt! Mae'r ffordd rydyn ni’n ffermio’r mynydd yn eithaf cyfyngedig, allwch chi ddim newid llawer. Mae’n rhaid i chi ddal i ffermio yn y ffordd draddodiadol. Dydi hi ddim yn bosibl aredig a thyfu cnydau, dim ond defaid a gwartheg allwch chi gadw, felly mae’n rhaid i ni geisio bod yn ddarbodus mewn rhannau eraill o’r system.*

*Pam ydyn ni’n gwneud hyn? Am ein bod yn gwybod yn iawn beth ydyn ni’n ei wneud a bod hon yn ffordd o fyw sydd wedi’i throsglwyddo i ni gan ein hynafiaid. Rydyn ni’n credu ein bod yn dal i ffermio’r mynyddoedd fel roedden nhw’n cael eu ffermio ganrifoedd yn ôl. Gobeithio y gallwn ni ddal ati ac y byddwn ni’n gallu trosglwyddo’r traddodiadau i’n plant.*

Cymhariaeth o nifer yr ymwelwyr â'r parciau cenedlaethol, diwrnodiau ymwelwyr a dreulir yn y parciau a gwariant ymwelwyr yn 2015

| | mae un ymwelydd yn aros am | ac yn gwario |
|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Eryri | 2.63 diwrnod | £122 |
| Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd | 1.46 diwrnod | £70 |
| Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog | 1.30 diwrnod | £66 |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 1.21 diwrnod | £56 |



# Llwyddiannau presennol y partneriaid

Llwyddiannau tîm Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa 2016

28 o wirfoddolwyr
750 o oriau Gwirfoddolwyr

375 bagiau o ysbwriel a gasglwyd

Llwyddiannau gwirfoddolwyr Cymdeithas Eryri yn 2017

3 sesiwn casglu sbwriel
a 5 diwrnod gwaith llwybrau,
10 diwrnod staff
450 o oriau gwirfoddolwyr

Dros 4 mis

Treuliodd y Tîm Wardeiniaid

480 o oriau'n cysylltu ag ymwelwyr

23 ymweliad i ymgysylltu â ffermwyr

## Creu mapiau ar gyfer y 21ain ganrif

Google Trekker

Gellir gweld pob un o'r prif lwybrau ar Google Maps






Tynnwyd lluniau pob un o'r prif lwybrau i greu mapiau o oriau y gellir eu gweld ar Google Street View



# Cynllun Ceidwaid Ifanc

Yn ystod hydref 2016, ymunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored i gynnal cynllun treialu newydd a chyffrous. Roeddem ni'n chwilio am ddeg o ddynion a merched ifanc, brwdfrydig ac eiddgar, 14 - 16 oed, i dreialu ein cynllun ceidwaid ifanc. Wrth fod yn rhan o'r tîm, cafodd y bobl ifanc hyn y cyfle i ddysgu amrywiaeth eang o sgiliau a fyddai'n eu paratoi ar gyfer bod yn wardeiniaid y dyfodol!


Dim ond lle i ddeg o bobl ifanc oedd ar y cynllun gan olygu bod llawer o gystadlu am y lleoedd. Daeth y rhai llwyddiannus i'r brig oherwydd eu brwdfrydedd a'u dyhead i fod yn rhan o'r cynllun a'u hoffter o'r awyr agored.

Gan gynnwys dringo mynyddoedd a chadwraeth yn ysblander gogledd Eryri, roedd y sgiliau a ddangoswyd gan y deg hyn yn wirioneddol wych. Roedd ein wardeiniaid a'n hyfforddwyr awyr agored arbenigol wrth law i'w tywys drwy'r rhaglen.

*"Cefais gymaint o hwyl a gwneud pethau nad oeddwn i erioed wedi'u gwneud o'r blaen. Cefais y cyfle i ddysgu cymaint o sgiliau newydd." Mabon Thompson*

## Cadwraeth

Mae Fferm Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Hafod y Llan, ar yr Wyddfa yn arwain gydag arbrawf arloesol i reoli cynefin trwy gyfuno sgiliau bugeilio traddodiadol gydag amcanion cadwraeth.



**Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

Mae dros

20

o nodweddion cadwraeth a warchodir yn y Warchodfa Natur Genedlaethol

## Addysg ac ennyn diddordeb

Gwariwyd

£20k

ar wella addysg a dehongli ym Mhen y Pass er mwyn sicrhau bod cerddwyr wedi'u paratoi'n well

Lansio map ac arweinlyfr i gerddwyr dibrofiad

MynyddaDiogel MountainSafe

Mwy na 1500 wedi'u gwerthu ers 2016

## Ynni adnewyddadwy

Mae 16 hydro ac 8 uned solar yn ardal yr Wyddfa

Ennyn diddordeb pobl ifanc mewn bywyd gwyllt

Cynlluniau ceidwaid ifanc
Cyrsiau hyfforddi
Dyddiau cadwraeth

Peiriannau talu ac arddangos newydd sy'n derbyn cardiau banc wedi'u gosod ym Mhen-y-Pass

## Cylchdaith Yr Wyddfa

Llwybr 42km aml-ddefnydd o gwmpas godre'r Wyddfa

50%
wedi'i uwchraddio hyd yma

Bydd sawl rhan o'r llwybr sy'n cael ei ddatblygu'n addas i bobl sy'n cael trafferth i symud, marchogwyr ceffylau, beicwyr a cherddwyr

Mae grŵp Beicwyr Mynydd Yr Wyddfa wedi adolygu a gwella cytundeb beicio mynydd Yr Wyddfa

24

mannau parcio ychwanegol wedi eu creu ar waelod Llwybr Cwellyn i leddfu problemau traffig trwy ail-ddylunio'r maes parcio presennol